

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Bridge End,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mai 2023

Dyddiad cyhoeddi: 23 Awst 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	25
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	26

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Bridge End, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 23 Mai 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 18 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod Practis Deintyddol Bridge End yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cymryd camau i geisio help a chynghor addas ar roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfeydd a oedd yn gwarchod eu hurddas.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Bridge End yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd y tîm deintyddol yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos ei fod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr holl fanylion cyswllt brys yn cael eu cynnwys yn y cynllun parhad busnes
- Adolygu'r polisi chwythu'r chwiban a'i ddiweddarau
- Anfon y dystysgrif dderbyn wreiddiol ar gyfer yr uned pelydr-x i AGIC
- Sicrhau bod cofnodion clinigol deintyddion newydd yn cael eu harchwilio cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt ddechrau yn eu swydd
- Cofnodi dewis iaith y cleifion mewn cofnodion clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd safle'r practis yn hygyrch.
- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Roedd archwiliadau o ansawdd da wedi cael eu cwblhau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ym Mhractis Deintyddol Bridge End.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl ac i'r practis.

Gwelsom fod y tîm staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd a'u bod yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rolau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cwblhau archwiliad rhoi'r gorau i smygu integredig Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth o bolisiau ar gael yn hwylus i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau
- Roedd y staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm
- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal yn dda iawn
- Roedd yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant perthnasol i'w rolau ac roeddent yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal y maent yn ei gael yn y practis hwn. Cafwyd cyfanswm o 18 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad.

Ar y cyfan, roedd yr holl sylwadau gan gleifion yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael yn dda iawn neu'n dda.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Cefais groeso pan gyrhaeddais y practis. Cafodd fy nhriniaeth ei hesbonio i mi drwy gydol yr apwyntiad. Cefais opsiynau clir ar gyfer triniaeth bellach.”

“Practis cyfeillgar iawn.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd ffolder yn yr ardal aros a oedd yn cynnwys gwybodaeth i'r cleifion am iechyd deintyddol ac am y practis yn gyffredinol. Roedd deunydd hybu iechyd hefyd yn cael ei arddangos yn yr ardal aros. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Felly, roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar wybodaeth a allai eu helpu i gymryd camau drostynt eu hunain i ofalu am hylendid y geg.

Gwelsom arwyddion 'Dim Smygu' yn y practis a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Roedd rhestrau prisiau hefyd wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros ac yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom arwyddion clir a oedd yn nodi sut i gysylltu â'r practis y tu allan i oriau a manylion yr ymarferwyr cofrestredig a oedd yn gweithio yn y practis.

Gofal Urddasol a Pharchus

Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael iddynt o ran y driniaeth roedd angen iddynt ei chael. Dywedodd yr holl gleifion wrthym hefyd fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall.

Dywedodd y cleifion wrthym:

“Roeddwn yn teimlo bod gen i ddigon o amser i ofyn cwestiynau.”

“Cafodd fy nhriniaeth ei hesbonio i mi drwy gydol yr apwyntiad. Cefais opsiynau clir ar gyfer triniaeth bellach.”

Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu. Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau.

Gwelwyd bod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos wrth y brif fynedfa.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan, ei dudalen cyfryngau cymdeithasol ac yn cael ei harddangos ger y brif fynedfa, yr ardal aros a'r dderbynfa.

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau.

Mewn ymateb i holiadur AGIC, dywedodd pob claf wrthym ei fod yn cael digon o wybodaeth er mwyn deall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, a bod ei hanes meddygol yn cael ei wirio cyn cael triniaeth.

Roedd pob claf yn cytuno ei fod yn cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a bod y costau yn cael eu nodi'n glir cyn cael triniaeth.

Gwelsom fod gwaith cynllunio ac opsiynau o ran triniaethau yn cael eu cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Gwelsom fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei roi mewn modd amserol. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd mwyafrif y cleifion (14/18) a gwblhaodd yr holiadur ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt, a dywedodd y pedwar claf arall ei fod yn eithaf hawdd.

Dywedodd mwyafrif y cleifion (15/18) a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys a dywedodd tri wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud hynny. Roedd rhif mewn argyfwng ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar y cleifion. Roedd y manylion cyswllt yn cael eu harddangos ger y brif fynedfa, ar wefan y practis, ar neges peiriant ateb ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Cawsom wybod nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn y practis yn gallu siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym, pe byddai angen, y gallai'r staff ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth i gleifion, gan gynnwys taflen wybodaeth i gleifion a pholisi cwynion. Roedd yr holl wybodaeth ar gael yn Saesneg, ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth ar gael yn Gymraeg. Dywedodd y staff wrthym y gellid trefnu i ddarparu'r wybodaeth mewn fformatau gwahanol pe gofynnwyd am hynny.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis gysylltu â'r bwrdd iechyd lleol er mwyn cael cyngor a chymorth i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith yn unol â safonau'r Gymraeg¹.

¹ <https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-gofal-sylfaenol>

Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gael cyngor a chymorth addas i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Roedd mynediad da i'r adeilad. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i'r ardal aros, y dderbynfa, y toiledau a phob deintyddfa.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio. Yn ogystal, dywedodd pob un ohonynt wrthym eu bod yn teimlo bod y safle'n hygyrch.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da iawn, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg. Gwelsom fod pob ardal yn lân iawn ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis deintyddol. Roedd mwyafrif y cleifion (15/18) a gwblhaodd yr holiadur o'r farn fod y practis deintyddol yn lân iawn a dywedodd tri chlaf ei fod yn eithaf glân.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag asesiadau risg, megis tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

Gwelsom fod gan y practis gynllun parhad busnes ar waith i sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir a gofal diogel i'r cleifion. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fanylion cyswllt brys wedi'u cynnwys yn y cynllun. Cawsom wybod fod yr holl fanylion cyswllt yn cael eu cadw ar ffôn symudol a grŵp WhatsApp y rheolwr cofrestredig.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl fanylion cyswllt yn cael eu cynnwys yn y cynllun parhad busnes.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd gan y practis ardal penodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol. Nid yw'r ystafell ddihalogi yn ardal gaeëdig ddiogel. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y practis wedi lleihau'r risgiau cyn belled ag y bo'n rhesymol

ymarferol. Cawsom wybod fod cynlluniau ar waith i adnewyddu'r ardal ac i neilltuo ystafell ddihalogi gaeëdig benodedig, a gwelsom fod cynlluniau manwl wedi cael eu llunio.

Roedd y cyfleuster yn lân ac yn drefnus. Roedd yn cynnwys cyfarpar addas ac roedd yn daclus.

Roedd y trefniadau dihalogi yn dda. Dangosodd y staff y broses ddihalogi i ni a nodwyd y canlynol gennym

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da.
- Roedd offer yn cael eu storio'n briodol ac roedd dyddiad wedi'i nodi arnynt.
- Roedd digon o gyfarpar diogelu personol i ddiogelu'r staff rhag anaf a/neu haint.
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi.
- Roedd cynwysyddion storio'r offer yn gadarn ac yn ddiogel.

Gwelsom fod y gweithdrefnau a oedd ar waith i lanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf.

Roedd archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith i archwilio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd cofnodlyfr yn cael ei ddefnyddio i gofnodi'r gwiriadau diogelwch adeg dechrau'r awtoclaf ac ar ddiwedd y dydd.

Roedd gan bob deintyddfa restr wirio ar gyfer trefniadau glanhau, a gwelsom fod y rhestr yn cael ei chwblhau'n rheolaidd.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achoswyd gan eitemau miniog. Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu diogelu rhag feirysau a gludir yn y gwaed.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR). Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r offer a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd polisi ar waith ynglŷn ag archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai'n rhaid iddynt roi gwybod am ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â meddyginiaeth.

Diogelu Plant ac Oedolion

Roedd polisiau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiau yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Cafodd un clinigydd ei enwebu fel arweinydd diogelu ac roedd wedi'i hyfforddi mewn diogelu hyd at lefel 3. Roedd y staff yn gallu trafod y polisiau a'r gweithdrefnau, a senarios amrywiol, â ni yn fanwl.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw bryderon ynglŷn â gwaith yn uniongyrchol â'r prif ddeintydd ac roeddent yn hyderus iawn y byddai'n gweithredu i ymateb i unrhyw bryderon.

Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y practis. Y prif ddeintydd oedd y cyswllt enwebedig ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig at bwy y byddai'r staff yn mynd pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am y prif ddeintydd. Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn mynd at

glinigwyr eraill ar y safle. Rydym yn argymhell y dylai'r practis ddiweddarau'r polisi i adlewyrchu hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn cyflogi a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a / neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Dim ond un uned pelydr-x y gellir ei gosod y tu fewn i'r geg sydd gan y practis, sydd wedi'i lleoli mewn ystafell ar wahân i'r deintyddfeydd. Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ìoneiddio diweddaraf. Fodd bynnag, mae'r ystafell a ddefnyddir i gynnal archwiliadau pelydr-X y tu fewn i'r geg yn gymharol fach, a nodwyd nad yw un o'r waliau, sef y wal sy'n gwahanu'r ystafell hon a'r ardal ddihalogi, yn wal gadarn. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y wal yn cynnwys deunydd gwarchod ychwanegol. Fodd bynnag, nid oedd y dystysgrif dderbyn wreiddiol ar gyfer yr uned pelydr-X ar gael i gadarnhau hyn. Cafodd ein pryderon mewn perthynas â'r ystafell pelydr-X eu datrys yn ystod ein hymweliad a chyfeirir atynt yn Atodiad A o'r adroddiad hwn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig anfon y dystysgrif dderbyn i AGIC. Os nad yw ar gael, rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth o asesiad risg o'r ystafell pelydr-X, naill ai o archwiliad critigol, gwybodaeth gomisiynu neu asesiad arall gan Gynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd (RPA).

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Roedd trefniadau ar waith i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisiâu a gweithdrefnau .

Cofnodion y Cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod y staff yn cadw cofnodion clinigol boddhaol, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei

gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion. Ym mhob achos, roedd y cofnodion a welsom wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros fynychu. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd boddhaol. Fodd bynnag, nodwyd rhai bylchau, er enghraifft, lle nad oedd cynllun triniaeth ar waith, lle nad oedd achosion o alw'n ôl wedi'u cofnodi a lle nad oedd unrhyw gofnod o ragnodi gwrthfotigau. Gwnaethom drafod ein canfyddiadau â'r rheolwr cofrestredig, a gwnaethom gynghori'r practis y dylai oruchwyllo deintyddion newydd yn well.

Rydym yn argymhell y dylai cofnodion clinigol deintyddion newydd gael eu harchwilio cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt dechrau yn eu rôl.

Nodwyd gennym hefyd nad oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi mewn unrhyw nodiadau clinigol.

Rydym yn argymhell y dylid cofnodi dewis iaith y cleifion yn eu cofnodion clinigol.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y cyfleusterau ar y safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol y bwriedir eu darparu ac roedd prosesau ar waith ar gyfer gweithredu'r practis yn effeithlon. Gwelsom fod gan y practis gynlluniau ar waith i wella'r cyfleusterau, gan gynnwys adnewyddu'r ystafell ddihalogi a chael gwared ar yr ystafell pelydr-X er mwyn gallu cynnal archwiliadau pelydr-X ym mhob deintyddfa.

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y cyfleusterau yn y practis yn addas iddynt gyflawni eu dyletswyddau a bod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn cael eu gwneud yn electronig, ac felly bod modd rhannu gwybodaeth yn effeithlon. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai staff y practis yn mynd ar drywydd unrhyw atgyfeiriadau yr ystyriwyd eu bod yn rhai brys, fel amheuan o ganser y geg, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael apwyntiad amserol.

Lle bynnag y bo'n bosibl, roedd y practis yn trefnu i weld cleifion yr oedd angen gofal a thriniaeth frys arnynt o fewn oriau agor arferol er mwyn atal sefyllfa lle y byddai'n rhaid i'r cleifion fynychu gwasanaethau gofal brys neu wasanaethau y tu allan i oriau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol â'r rheolwr cofrestredig a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Roedd llawer o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers nifer o flynyddoedd ac roedd cydberthynas dda rhyngddynt.

Roedd y staff yn glir iawn ac yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau. Gwelsom fod y staff wedi llofnodi'r polisiau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Roedd trefniadau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy gyfarfodydd tîm ar gyfer y practis cyfan. Roedd amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn ac roedd cofnodion yn cael eu llunio.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith i bob un ohonynt. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd gan bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis gontract cyflogaeth. Gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cwmpasu hyfforddiant a pholisiau a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff hefyd yn cael eu cynnal. Roedd yn gadarnhaol nodi bod arfarniadau yn gyfredol ac yn gynhwysfawr.

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i gadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas i gyflawni eu rolau. Roedd tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar ffeil fel sy'n ofynnol. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael

hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau fel y'u nodwyd yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Roedd ar gael i bob claf ei gweld yn yr ardal aros. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn y datganiad o ddiben. Fodd bynnag, roedd angen adolygu a diweddarau'r weithdrefn. Nid oedd y weithdrefn yn cynnwys:

- Cyfeiriad at weithdrefn Gweithio i Wella'r GIG
- Ffynonellau cymorth ac eiriolaeth
- Cyfeiriad a rhif ffôn AGIC
- Cyfeiriad at AGIC fel llwybr i'r cleifion gwyno.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r weithdrefn gwyno a rhoi copi i AGIC.

Trafodwyd sut mae'r practis yn mynd ati i geisio adborth cleifion, a wneir drwy roi holiaduron i gleifion. Gall y cleifion hefyd roi adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Caiff dadansoddiad o'r adborth ei baratoi gan y rheolwr cofrestredig a'i drafod â'r tîm deintyddol yn eu cyfarfodydd tîm misol. Fodd bynnag, nid oedd system ar waith i roi gwybod i'r cleifion pa gamau, os o gwbl, a oedd wedi'u cymryd mewn ymateb i adborth.

Dylai'r rheolwr cofrestredig roi system addas ar waith i ddangos i'r cleifion pa gamau a gymerwyd mewn ymateb i'w hadborth.

Gwelsom fod gan y practis bolisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys manylion am rolau a chyfrifoldebau'r staff fel yr argymhellir gan Ganllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd (2023). Dylai hyn nodi'r trefniadau a'r gofynion lleol sydd wedi'u teilwra at y practis. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r staff gael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi ar y Ddyletswydd Gonestrwydd a sicrhau y caiff ei rannu â'r staff; ac y caiff copi ei anfon i AGIC. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r staff gael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwybod ac yn deall eu cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Roedd systemau cyfathrebu addas ar waith er mwyn helpu i weithredu'r practis.

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol, gan sicrhau diogelwch data personol. Roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd. Roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac nid oedd modd i neb heb awdurdod eu gweld. Roedd polisi diogelu data ar waith i hysbysu'r staff am yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Roedd yn amlwg iawn bod y staff yn y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Cawsom enghreifftiau o archwiliadau amrywiol a oedd yn cael eu cynnal fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o gofnodion y cleifion, archwiliadau pelydr-X, atal a rheoli heintiau a dihalogi (yn cydymffurfio â chanllawiau WHTM 01-05) a gwastraff clinigol. Nid oedd archwiliad ar roi'r gorau i smygu.

Dylai'r rheolwr cofrestredig roi trefniadau ar waith i gwblhau archwiliad rhoi'r gorau i smygu integredig Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd y practis wedi rhoi unrhyw adnoddau datblygu tîm ar waith eto. Gwnaethom awgrymu efallai yr hoffai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau deintyddol Matrics Aeddfedrwydd Deoniaeth Deintyddol Cymru. Mae'r Matrics Aeddfedrwydd yn cynnig adnodd datblygu tîm practis deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arferion gorau, ansawdd a diogelwch, gofynion deddfwriaethol a sut mae'n gweithio fel tîm.

Roedd y tîm deintyddol yn rhagweithiol, yn wybodus, yn broffesiynol ac yn dangos ei fod yn deall ble a sut i gael gfael ar gyngor ac arweiniad.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau eraill.

Dywedwyd wrthym fod system electronig yn cael ei defnyddio i atgyfeirio cleifion, gan gynnwys y rhai hynny yr oedd angen eu hatgyfeirio ar frys, at wasanaethau gofal iechyd eilaidd. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai fferyllwyr yn cysylltu â'r practis i drafod a chadarnhau presgripsiynau a roddwyd gan y deintyddion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Mae'r ystafell a ddefnyddir i gynnal archwiliadau pelydr-X y tu fewn i'r geg yn gymharol fach, a nodwyd nad yw un o'r waliau, sef y wal sy'n gwahanu'r ystafell hon a'r ardal ddihalogi, yn wal gadarn. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y wal yn cynnwys deunydd gwarchod ychwanegol. Fodd bynnag, nid oedd y dystysgrif dderbyn wreiddiol ar gyfer yr uned pelydr-X ar gael i</p>	<p>Nid oedd modd cadarnhau a oedd y wal sy'n gwahanu'r ystafell pelydr-X a'r ystafell ddihalogi yn cynnwys deunydd gwarchod digonol. Gallai hyn beri risg o niwed i'r staff os nad yw'n eu gwarchod yn ddigonol.</p>	<p>Trafodwyd y mater â'r rheolwr cofrestredig</p>	<p>Aeth y rheolwr cofrestredig ati ar unwaith i ddiwygio'r rheolau pelydr-X lleol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw aelod o'r staff yn yr ardal ddihalogi pan gaiff archwiliadau pelydr-X eu cynnal.</p>

gadarnhau hyn yn ystod yr ymweliad.			
-------------------------------------	--	--	--

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Bridge End

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Bridge End

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y practis yn cefnogi'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn unol â safonau'r Gymraeg a byddai'n rhaid i gcleifion ofyn am gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gael cyngor a chymorth addas er mwyn rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.	Safon Ansawdd - Teg	Cysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol i gael cyngor ar roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith a darparu dogfennaeth ddwyieithog yn ardal y dderbynfa gan gynnwys y ffolder gwybodaeth i gleifion	Michael Berrisford	Erbyn 1/9/23
Nid oedd unrhyw fanylion cyswllt brys wedi'u cynnwys yn y cynllun parhad busnes pe byddai eu hangen mewn argyfwng.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl fanylion cyswllt brys wedi'u cynnwys yn y cynllun parhad busnes.	Safon Ansawdd - Diogel	Cynnwys manylion cyswllt brys yn y cynllun parhad busnes	Michael Berrisford	Erbyn 1/9/23

<p>Mae angen diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban i gynnwys manylion yn nodi pwy y dylai'r staff fynd ato os bydd ganddynt unrhyw bryderon am y prif ddeintydd, sef yr unig gyswllt enwebedig ar hyn o bryd.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban.</p>	<p>Galluogi'r Gweithlu</p>	<p>Newid y polisi chwythu'r chwiban i gynnwys aelod arall o'r staff y gellir mynd ato os bydd unrhyw bryderon</p>	<p>Michael Berrisford</p>	<p>Erbyn 1/9/23</p>
<p>Nid oedd modd i ni gadarnhau a oedd y wal rhwng yr ystafell pelydr-X a'r ystafell ddihalogi yn cynnwys deunydd gwarchod digonol. Gallai hyn beri risg o niwed i'r staff os nad yw'n eu gwarchod yn ddigonol.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig anfon y dystysgrif dderbyn i AGIC. Os nad yw ar gael, rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth o asesiad risg o'r ystafell pelydr-X, naill ai o archwiliad critigol, gwybodaeth gomisiynu neu asesiad arall gan Gynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd (RPA).</p>	<p>Safon Ansawdd - Diogel IR(ME)R 2017</p>	<p>Cysylltu â Chynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd y practis a gweithio gydag ef i ddarparu asesiad risg boddhaol o'r ystafell pelydr-X. Yn y cyfamser, dylid edrych a gwrando er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw aelod o staff yn yr ardal ddihalogi pan fydd archwiliad pelydr-X yn cael ei gynnal</p>	<p>Michael Berrisford</p>	<p>Erbyn 1/9/23</p>
<p>Nodwyd sawl bwlch yng nghofnodion clinigol y</p>	<p>Dylid archwilio cofnodion clinigol pob deintydd newydd</p>	<p>Safon Ansawdd - Effeithiol</p>	<p>Caiff cofnodion clinigol pob deintydd newydd eu</p>	<p>Michael</p>	<p>Erbyn 1/9/23</p>

cleifion a allai gael effaith ar ofal cleifion.	cyn gynted â phosibl ar ôl iddo ddechrau yn ei rôl.		harchwilio o fewn 4 wythnos i'r adeg y bydd yn dechrau yn ei rôl	Berrisford	
Nid yw'r practis yn gofyn i'r cleifion am eu dewis iaith ac felly nid yw'n ymwybodol o ddewis iaith y cleifion a byddai angen i gleifion ofyn am y gwasanaeth hwn.	Dylid cofnodi dewis iaith y cleifion yn eu cofnodion clinigol.	Safon Ansawdd - Effeithiol	Caiff dewis iaith y cleifion ei gofnodi yn eu cofnodion clinigol yn ystod eu hapwyntiad nesaf.	Michael Berrisford	Erbyn 1/9/23
Mae angen adolygu a diweddarau'r weithdrefn gwyno er mwyn sicrhau y caiff y cleifion eu hysbysu'n llawn am y broses.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r weithdrefn gwyno a rhoi copi i AGIC.	Galluogwr - Dysgu, gwella ac ymchwil	Caiff y weithdrefn gwyno ei hadolygu a'i diweddarau, a rhoddir copi i AGIC	Michael Berrisford	Erbyn 1/9/23
Ni chaiff dadansoddiad o adborth y cleifion ei gyhoeddi ac felly nid yw'r cleifion yn ymwybodol o ba gamau a gymerwyd gan y practis.	Dylai'r rheolwr cofrestredig roi system addas ar waith i ddangos i'r cleifion pa gamau a gymerwyd gan y practis mewn ymateb i'w hadborth.	Galluogwr - Dysgu, gwella ac ymchwil	Caiff gwybodaeth ei rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn ardal derbynfa'r practis i ddangos i'r cleifion pa gamau a gymerwyd gan y practis mewn ymateb i'w hadborth.	Michael Berrisford	Erbyn 1/9/23

<p>Nid yw'r polisi ar y Ddyletswydd Gonestrwydd yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r staff fel yr argymhellir gan Ganllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd (2023).</p> <p>Nid yw'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi ar y Ddyletswydd Gonestrwydd a sicrhau y caiff ei rannu â'r staff; ac y caiff copi ei anfon i AGIC.</p> <p>Dylai'r staff hefyd gael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.</p>	<p>Galluogwr - Diwylliant</p>	<p>Caiff y polisi ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ei ddiweddarau a'i rannu â'r staff. Caiff copi ei anfon i AGIC.</p> <p>Caiff hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ei drefnu ar gyfer pob aelod o'r staff</p>	<p>Michael Berrisford</p> <p>Michael Berrisford</p>	<p>Erbyn 1/9/23</p> <p>Erbyn 1/9/23</p>
<p>Nid oes archwiliad rhoi'r gorau i smygu integredig Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi cael ei gwblhau i sicrhau bod cleifion yn cael eu helpu gyda'u dibyniaeth ar dybaco.</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i archwiliad rhoi'r gorau i smygu integredig Addysg a Gwella Iechyd Cymru gael ei gwblhau.</p>	<p>Galluogwr - Dysgu, gwella ac ymchwil</p>	<p>Caiff archwiliad rhoi'r gorau i smygu integredig Addysg a Gwella Iechyd Cymru ei gwblhau</p>	<p>Michael Berrisford</p>	<p>Erbyn 1/9/23</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dr Michael Berrisford

Swydd: Prif Ddeintydd/Perchennog

Dyddiad: 18 Gorffennaf 2023